

Cyngor Cymuned Llanelian (279)

Cofnodion cyfarfod Nos Fawrth Medi 13, 2016 a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Penysarn am 7yh.

Presennol: Glenys Jones, Elfyn Hughes, Hefina Williams, John Griffiths, Thomas Jones, Dafydd Griffiths, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Cyng Aled M Jones, Cyng Richard Jones, Dewi Williams (CSYM)

Ymddiheuriadau: Helen Hughes, Cyng Wil Hughes

1 Croeso

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Dafydd Griffiths ac fe groesawyd pawb i'r cyfarfod.

2 Datgan Diddordeb

Cyng Richard Jones – materion cynllunio

Thomas Jones a Hefina Williams – cais Cymdeithas y Leinws

3 Mr Dewi Williams (Cyngor Sir Ynys Mon) – Materion Prif-ffyrdd a Thoiledau Cyhoeddus

Croesawyd Mr Williams i'r cyfarfod. Roedd pedwar prif bwynt i'w trafod:

Cyflwr lonydd yr ardal – nodwyd pryder fod cyflwr y lonydd mewn nifer o lefydd yn ddifrifol. Mae nifer o gwynion wedi eu dderbyn gan aelodau'r Cyngor ac mae felly angen sicrhau bod CSYM yn ymwybodol o bryderon a phroblemau'r ardal lleol. Cafwyd wybod gan Mr Williams bod ardaloedd wedi eu marcio yn barod gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith o fewn y mis, a bod gwaith wedi'w glustnodi ar gyfer manau eraill mewn cynllun ehangach dros gyfnod o dair mlynedd. Canmolwyd gwaith Hogan wrth drin ac ail-wynebu'r lonydd ond fe nodwyd nad oedd safon gwaith y tim cymunedol cystal.

Lon yr Ysgol – mae nifer o gwynion wedi dod i law ynglyn a phroblemau ger yr ysgol, yn enwedig ar adegoedd danfon a chodi plant. Mae goryrru eisioes wedi ei gofrestru yn broblem gyda'r heddlu. Fe gadarnhaodd Mr Williams y byddai'r Adran Brif-ffyrdd hefyd yn ymchwilio i'r mater. Nododd nad oedd 'speed bumps' yn datrys problemau ac o brofiad roedd cynifer yn eu herbyn unwaith iddynt gael eu gosod mewn ardaloedd eraill. Fe gynnigwyd bod Mr Williams yn edrych i fewn i'r posibilrwydd o gael cyfyngiad cyflymder o 20 milltir yr awr dros dro ar gyfer yr adegau mwyaf prysur. Deallwyd bod yr ysgol eisioes wedi newid yr amseroedd cychwyn/gorffen i wahanol oedrannau er mwyn ceisio lleihau'r broblem parcio. Fe gadarnhaodd Mr Williams y byddai yn anfon y swyddogion priodol er mwyn ymchwilio i'r problemau parcio (ar draws y groesfan) a gwirio bod y marciau ffordd priodol yn eu lle ac yn ddigonol erbyn hyn.

Toiledau cyhoeddus – Fe gadarnhaodd Mr Williams nad oedd toiledau cyhoeddus yn ddyletswydd statudol, a bod CSYM yn edrych ar y posibilrwydd o gau cyfleusterau led led yr ynys. Fe nododd bod angen gwariant o £2700 ar doiledau Llanelian i'w codi i safon derbynniol. Nodwyd bod Cyng Aled Jones a Cyng Richard Jones wedi pleidleisio i gadw toiledau cyhoeddus yr ynys ar agor ond nad oedd cefnogaeth gan eraill. Fe ddywedodd Mr Williams bod trafodaethau ddiweddar o fewn yr ardan wedi cadarnhau bod arian digonol i adnewyddu a gwella'r adeiladau. Mae CSYM eisioes wedi cynnig talu rhan o dreth a chostau glanhau'r flwyddyn gyntaf. Roedd y Cyngor Cymuned am weld y cyfleusterau yn parhau ar agor, ond ddim am godi trethi llawer iawn yn uwch ar drigolion yr ardal. Teimlai'r aelodau byddai cau'r toiledau (ledled yr ynys) yn mynd yn groes i bolisiau eraill megis twristiaeth a strategaeth pobl hyn y Cyngor Sir. Nododd Mr Williams nad oedd angen poeni yn ormodol ar hyn o bryd ac i ddisgwyl mwy o wybodaeth cyn gwneud penderfyniad.

Casglu gwastraff – cafwyd trafodaeth am y newidiadau i gasgliadau gwastraff yr ynys gan nodi pryderon yr aelodau a thrigolion lleol. Nodwyd bod biniau ailgylchu ger y Bedol yn aml yn orlawn ac nad oeddent yn cael eu gwagio'n reolaidd. Nodwyd hefyd bod y Bedol wedi'w werthu a bydd efallai angen edrych am safle arall yn y dyfodol agos.

Diolchwyd i Mr Williams am ei bresenoldeb a bu adael am 7:50 o'r gloch.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir, cynnig Thomas Jones, eilio Hefina Williams.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

5.1 Cofeb

Nid oedd diweddariad.

5.2 Cae Chwarae

Cafwyd wybod bod y gwaith o drin a thrwsio'r offer chwarae wedi ei gwblhau ers y cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod pobl ifanc wedi dechrau yfed yn y cae chwarae eto a bod gwydr yn cael ei adael ar ol o amgylch yr offer chwarae. Nodwyd hefyd bod nifer o geir yn ol nol a blaen drwy gydol y nos. Cytuno cysylltu a'r heddlu i godi ymwybyddiaeth.

5.3 Gwobr Gwyn Roberts

Cafwyd wybod mai Caio Evans oedd ennilydd y wobr yn y flwyddyn ysgol 2015/16 am ei gyfraniad i fywyd yr ysgol yn gyffredinol. Cafodd y wobr eleni ei gyflwyno gan Glenys Jones ar ran y Cyngor. Cytuno ei bod yn bwysig bod y cynrychiolydd o'r Cyngor yn cael cyfle i gyflwyno'r wobr.

5.4 Enwau Hen Gartrefi – Llys Dulas

Nid oes diweddariad ers y cyfarfod diwethaf. Thomas Jones i wneud ymholiadau anffurfiol ac adrodd yn ol i'r cyfarfod nesaf.

5.5 Arwydd yn y Sgwar

Daw ebost gan Mon Williams yn cadarnhau mai CSYM sy'n gyfrifol am yr arwydd ac y byddai yn trefnu i'w baentio cyn gynted a phosib.

6 Cynllunio

6.1 Ceisiadau

Roedd dau gais i'w trafod:

- Tyddyn Bach (24C334) – dim sylw
- Mast Nebo (24C180L) – dim sylw

6.2 Penderfyiadau

Nodwyd penderfyniadau CSYM ar y ceisiadau canlynol:

- Sied amaethyddol ger y mast yn Nebo (24C331) – gwrthod
- Bryn Glas, Laneilian (24C332) - caniatad

7 Materion Ariannol

7.1 Taliadau

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

1032.00 Playquest (cae chwarae)
390.00 GL Jones (cae chwarae)
216.00 ROSPA (arolygon caeau chwarae)
321.92 Cyflog Clerc (Gorffennaf)
321.92 Cyflog Clerc (Awst)
26.24 Cyngor Tref Amlwch (hysbyseb Cod Ymddygiad)

7.2 Archwiliad 2015/16

Daw adroddiad yr archwiliwr allannol wedi i gyfrifon 2015/16 gael eu harchwilio. Nodwyd y pwyntiau a godwyd gan gytuno trafod ymhellach gofynnion yr archwiliwr gyda'r archwiliwr mewnol mewn da bryd.

7.3 Rheoliadau Ariannol

Daw ddogfen ddrafft newydd gan Un Llais Cymru i'w gymeradwyo gan gynghorau cymuned. Nodwyd nad oes llawer ers i reoliadau ariannol y Cyngor gael eu hadolygu. Cytuno cysylltu ag Un Llais Cymru i weld oedd rhaid mabwysiadu'r ddogfen newydd ac os oes, i'r is-bwyllgor sef Dafydd Griffiths, Hefina Williams ac Elfyn Hughes gyfarfod i drafod ymhellach ac adrodd yn ol i'r Cyngor Llawn.

7.4 Ceisiadau am Ariannol

Daw cais am gymorth ariannol gan Gymdeithas y Leinws. Cytuno cyfrannu £50 eto eleni ar yr amod eu bod yn ceisio ehangu eu cynulleidfa. Cynnig Elfyn Hughes. Eilio Glenys Jones.

Cymeradwywyd taliad o £600 i Bwyllgor Apel (Amlwch a Phenysarn) Eisteddfod Genedlaethol Mon 2017. Roedd y swm yma wedi ei grybwyll pan osodwyd y gyllideb a'r briseb am y flwyddyn ariannol. Cynnig John Griffiths, eilio Thomas Jones, pawb yn cytuno.

8 **Llithrfa**

Nid oedd problemau i'w hadrodd. Bydd y postyn yn cael ei dynnu i ffwrdd ddiwedd mis Medi, a disgwylir cael goriadau yn ol erbyn ddiwedd yr Hydref. Bydd angen trefnu cyfarfod y llithrfa ddiwedd yr Hydref i asesu llwyddiant y cynllun.

9 **Y Diweddar Mrs Mair Morris**

Daw llythyr gan gyfreithwyr y ddiweddar Mrs Mair Morris yn datgan bydd swm o oddeutu £170,000 i'w dalu i'r Cyngor Cymuned. Cytuno bod angen Cyngor cyfreithiol er mwyn diogelu'r fath arian ac efallai byddai modd sefydlu ymddiriedolaeth at y dyfodol er mwyn diogelu dymuniadau Mrs Mair Morris.

10 **Gohebiaeth**

10.1 Giat y Fynwent – daw ebost gan Gwyn Roberts yn gofyn a fyddai modd edrych i fewn i'r posibilrwydd o gael giat newydd ar y fynwent fel y dymunai'r ddiweddar Mrs Mair Morris. Cytuno gwneud mwy o ymholiadau gan mai dyma fyddai Mrs Mair Morris wedi ei ddymuno.

10.2 Rhifyn diweddaraf *Clerks and Councils Direct*

10.3 Wylfa Newydd – mae ymgynghoriad diweddaraf Horizon yn cymryd lle ar hyn o bryd. Mae nifer fawr o bryderon yn yr ardal ynglyn a'u cynlluniau arfaethiedig ar gyfer gwersyll dros dro i weithwyr yn Amlwch, a diffyg gwaith angenrheidiol megis cynnal a gwella'r lon o Amlwch i Gemaes. Mae hefyd pryderon bod CSYM yn gwrthwynebu datblygiad ar safle Shell, Rhosgoch. Bydd cyfle yn y cyfarfod nesaf i gadarnhau ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad. (Mae cyfarfod Partneriaeth Cyngorau Cymuned Gogledd Mon gyda swyddogion Horizon i'w gynnal 14/9/2016; bydd John Griffiths yn cynrychioli Llaneilian).

10.4 Diweddariad gan National Grid am eu gwaith i ddatblygu Cysylltiad Gogledd Cymru.

10.5 Fideo'r Ombwdsmon – fe anfonwyd drwy ebost ddolen i fideo a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon er gwybodaeth i bob cynghorydd. Mae angen i bawb gadarnhau eu bod wedi ei wyllo. Bydd Dafydd Griffiths yn trefnu bod y fideo ar gael yn y cyfarfod nesaf i bawb fydd yn bresennol.

11 **Unrhyw Fater Arall**

11.1 Nodwyd bod porth wedi ei agor i'r lon gyferbyn a Carreg Winllan. Deallwyd mai mynediad dros dro yn unig ydyw er mwyn cael peiriannau i'r cae.

11.2 Problemau parcio – mae ceir i weld wedi'w gadael am peth amser ym Mhengorffwysfa. Fe soniwyd am y broblem gyda'r heddlu yn y cyfarfod diwethaf ac nid oes symud arnynt fyth. Cytuno cadarnhau manylion y ceir a chodi ymwybyddiaeth y DVLA a'r swyddog priodol yn y Cyngor Sir i wneud ymholiadau.

11.3 Tai pensïynwyr – mae'n debyg bod ambell un yn parhau yn ddi-ddefnydd er ei fod wedi'w gosod. Roedd hyn yn codi pryder i'r aelodau gan bod tai Cyngor yn brin yn yr ardal. Cyng. Aled Jones i edrych i ferwn i'r mater.

12 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod cyffredin nesaf Hydref 11, 2016.

Bu'r cyfarfod orffen am 9 o'r gloch

CET09/2016